BEADLES, ELISHA (1670 - 1734), Crynwr ac awdur

Enw: Elisha Beadles
Dyddiad geni: 1670
Dyddiad marw: 1734
Priod: Anne Beadles (née Handley)
Rhiant: Elizabeth Beadles (née Jenkins)
Rhiant: John Beadles
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Crynwr ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Thomas Mardy Rees

Mab John Beadles, Kempston, swydd Bedford, ac Elizabeth, aeres Walter Jenkins, Pant, Crynwr. Priododd Anne Handley yn 1699. Cyfieithodd yn Gymraeg draethawd a ysgrifenasid gan ei daid, Walter Jenkins, yng ngharchar Trefynwy, ac a enwid ' The law given forth out of Zion ... ', a chyhoeddwyd y cyfieithiad yn Amwythig, c. 1715, o dan y teitl *Y gyfraith a roddwyd allan o Sion*.

Ysgrifennodd hefyd ragair i atebion Theodor Eccleston i Thomas Andrews, ficer Llanofer, a ysgrifenasai am Grynwyr at un o'i blwyfolion yn Pontypwl. Anfonodd hanes dechreuad achos y Crynwyr yn Ne Cymru i'r ' Meeting for Sufferings ' yn Llundain, 21 Awst 1720.

Awdur

Y Parchedig Thomas Mardy Rees, (1871 - 1953)

Ffynonellau

T. M. Rees, *A history of the Quakers in Wales and their emigration to North America* (1925)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732988

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu